Hawdd ei ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Camau Creadigol Cyngor Celfyddydau Cymru

## Arian i gefnogi cyrff sydd yn cael eu harwain gan bobl o gefndiroedd amrywiol



Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**Camau creadigol i gyrff.’**

**Hydref 2022**

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 20**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Cyngor Celfyddydau Cymru. Am ragor o wybodaeth cysylltwhc gyda:

**E-bost:** creativesteps@arts.wales

**Ffôn:** 03301 242733

**Gwefan:** arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Cyflwyniad....................................................................4**
**Am Camau Creadigol.......................................................6**
**Prosiectau rydyn ni eisiau eu cefnogi............................9**
**Pwy sydd yn gallu gwneud cais.....................................11**
**Am faint rydych chi'n gallu gwneud cais....................12**
**Sut i wneud cais...........................................................15**
Dyddiadau pwysig.....................................................15
**Help gyda'ch cais.........................................................17**
Beth os oes gen i gwestiwn.......................................18
**Geiriau anodd...............................................................20**

# Cyflwyniad



**Camau Creadigol** ydy enw rhaglen Gyllido Loteri Cenedlaethol newydd.




**Camau Creadigol** ydy arian i gyrff sydd yn cael eu harwain gan bobl o gefndiroedd **amrywiol**.



Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd. Maen nhw:

- Gyda gwahanol alluoedd
- Yn credu gwahanol bethau
- Gyda gwahanol hunaniaethau rhywiol
- Yn gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw yn byw eu bywydau
- O wahanol oedran.




Mae'r ddogfen yma yn dweud wrthych ch sut i wneud cais am yr arian yma fel corff.




Fe fydd y ddwy ddogfen yma yn eich helpu chi i wneud cais da am gyllid.




Dydy **Camau Creadigol** ddim ar gyfer creu a gwneud prosiectau celfyddydol. Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth am ein cyllid arall ar gyfer prosiectau celfyddydol.

# Am Camau Creadigol i gyrff



Rydyn ni'n gwybod nad ydyn ni yn gweithio digon gyda chyrff sydd yn cael eu harwain  gan bobl o gefndiroedd **amrywiol**.



Ac rydyn ni'n gwybod nad ydy pobl o gefndiroedd **amrywiol** wedi gallu cael ein cyllid yn hawdd yn y gorffennol.



Rhaid inni gefnogi'r cyrff yma er mwyn inni gael rhagor o waith artistig yn cael ei greu gan artistiaid **amrywiol**.

Rydyn ni'n diffinio cefndiroedd **amrywiol** fel:



- Unrhyw un o gymunedau Affricanaidd, Asiaidd, Caribi, Hispanig, Dwyrain Ewropeaidd, Latino  neu Dwyrain Canol yng Nghymru.



- Unrhyw un sydd yn gweld eu hunain fel rhywun sydd yn dod o grŵp  ethnig sydd ddim yn unig yn Wyn.



- Unrhyw un sydd yn Sipsi, Roma a Theithwyr.



- Pobl Fyddar a phobl gyda cholled clyw.



- Pobl anabl.



- Pobl **niwroamrywiol**

Pobl **niwroamrywiol** ydy pobl y mae eu meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol.



- Pobl sydd wedi wynebu **hiliaeth** neu **wahaniaethu**.



**Hiliaeth** ydy triniaeth annheg neu annymunol o bobl oherwydd eu bod yn perthyn i hil abennig.

**Gwahaniaethu** ydy pan rydych chi'n cael eich trin yn ddrwg neu yn annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rhywiol.



Mae'n bwysig ein bod ni yn cyllido prosiectau sydd yn helpu i wneud yn siŵr bod Cymru yn lle teg a chyfartal i fyw ynddo.



## Y Model Cymdeithasol o Anabledd

I deall anabledd rydyn ni yn defnyddio syniadau o'r enw **Y Model Cymdeithasol o Anabledd**.



Mae'r **model cymdeithasol o anabledd** yn dweud bod y ffordd mae cymdeithas yn cael ei rhedeg yn gallu stopio pobl anabl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud.



Rydyn ni'n credu bod angen i gymdeithas newid i wneud yn siŵr bod pethau mewn cymdeithas yn rhedeg fel bod pawb yn gallu eu defnyddio nhw.

# Sut rydyn ni'n gallu helpu ac am beth rydych chi'n gallu gwneud cais?



Rydyn ni eisiau eich helpu chi gyda'ch syniadau, a'ch arwain  chi drwy wneud cais am gyllid **Camai Creadigol**.



Rydyn ni'n gallu bod yn hyblyg am beth rydyn ni'n rhoi arian ar ei gyfer. A faint rydyn ni'n gallu ei gynnig i chi.


**Rydyn ni'n gallu eich helpu chi i wneud cais am gyllid drwy:**




- Eich helpu chi i feddwl am gynllun ar gyfer y cyllid fydd yn ateb anghenion eich corff orau.



- Eich cefnogi chi i gael help gan rhywun. Fel Swyddfa Cyngor Celfyddydau neu Swyddog Cyswllt Celfyddydau. Rydyn ni yn gallu eich helpu chi i dalu am rhywun proffesiynol y tu allan  i'r Cyngor Celfyddydau  i'ch helpu chi. Er enghraifft, rhywun i'ch helpu chi gyda marchnata neu gynllunio busnes.



- Eich helpu chi i ysgrifennu eich cais. Er enghraifft rydyn ni'n gallu eich cefnogi chi i anfon eich cais inni mewn ffordd wahanol – trwy fideo, yn lle ysgrifennu.

**Mae eich prosiect yn gallu bod yn bethau fel:**



- Datblygu adnoddau a sgiliau mae eich corff eu hangen. Er enghraifft, gwefan, rheoli arian a chodi arian.



- Sefydlu grwpiau gyda chyrff eraill i ddysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd.



- Gweithio gyda rhywun  proffesiynol i'ch cefnogi chi i ddarganfod ffyrdd newydd o weithio fel corff.



- Gwneud eich corff yn fwy proffesiynol.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais

**Mae Camau Creadigol ar gyfer cyrff sydd:**





- wedi eu lleoli yng Nghymru



- yn cael eu harwain gan bobl **amrywiol**. Mae hyn yn meddwl y dylai hanner eich rheolwyr a'ch bwrdd fod o gefndiroedd **amrywiol**



- eisiau neu yn darparu gweithgaredd celfyddydol i bobl yn barod




- yn barod i ddatblygu ymhellach. Rydyn ni eisiau i **Camau Creadigol** eich helpu chi i gyflawni eich nodau hir dymor. Os nad ydych chi yn siŵr am hyn rydych chi'n gallu siarad gyda ni.





Fydd cyrff yn ein **Portffolio Celfyddydau Cymru** ddim yn gallu gwneud cais. Mae ein **Portffolio Celfyddydau Cymru** yn grŵp o gyrff rydyn ni yn eu cefnogi ac yn rhoi arian iddyn nhw bob blwyddyn i'w helpu nhw i redeg.

# Am faint rydych chi'n gallu gwneud cais



Rydych chi'n gallu gwneud cais am rhwng **£500** a **£250** mil.




Cyn i chi wneud cais am y swm mawr, mae angen i chi ddatblygu eich busnes:



- Rydych chi'n gallu gwneud cais am swm bach o hyd at **£10** mil i dalu i bobl eich cynghori a'ch cefnogi chi i ddatblygu eich busnes.



- Rydych chi'n gallu gwneud cais am ragor o symiau bach o arian os ydych chi angen rhagor o gefnogaeth neu gynllunio.




Mae eich prosiect yn gallu cael ei ddarparu dros 3 blynedd.



Os ydych chi'n gwneud cais am dros 1 blwyddyn, fe fyddwn ni yn adolygu eich gwaith cyn inni gytuno i roi arian am y flwyddyn nesaf.




Fe fyddwn ni yn gosod targedau clir ar gyfer pob blwyddyn. Fe fyddwn ni yn siarad am ydych chi wedi cyfarfod y targedau yma cyn inni allu symud ymlaen.




Dydyn ni ddim yn gallu addo rhoi arian i chi ar ôl i'ch prosiect orffen. Rhaid i chi ddarganfod cyllid o rhywle arall i barhau gyda'ch gwaith.



Rydyn ni yn gallu cyllido y rhan fwyaf o'ch prosiect– **90%.**



Rhaid i weddill yr arian ddod o rhywle arall. Neu mae gweddill yr arian yn gallu bod yn gyllid **mewn modd**.
Cyllid **mewn modd** ydy adnawdd neu gefnogaeth sydd yn werth arian. Ond does dim rhaid i chi dalu arian parod amdano. Er enghraifft, amser gwirfoddol.



Dim ond am **rhywfaint** o gostau staff sydd yn rhan o ddatblygu'r busnes y byddwn ni yn ei dalu.



Os nad ydych chi yn gallu cael cyllid o rhywle arall efallai y byddwn ni yn gallu cyllido **cyfanswm** cost y prosiect mewn rhai achosion.



Rydyn ni eisiau i bawb allu cymryd rhan yn y gwaith yma.

**Efallai y byddwn ni'n meddwl rhoi arian ar gyfer:**

- Cyrff sydd eisiau hyd at £250 mil dros 3 blynedd.
- **Anghenion mynediad**. Er enghraifft, rydyn ni'n gallu eich cefnogi chi gyda phethau fel gweithwyr cefnogi, offer arbenigol a dehonglwyr.
- Rhan fwyaf o gost y prosiect.
- Os nad oes gennych chi arian i dalu eich staff, efallai ein bod ni yn gallu helpu i dalu eu cyflogau. Ond rhaid i chi ddangos inni bod angen eu swyddi i ddatblygu eich busnes.

# Sut i wneud cais

## Dyddiadau pwysig




Y dyddiad cau ar gyfer cyllid **Camau Creadigol** ydy diwrnod olaf bob mis.




Y dyddiad cau cyntaf ydy **31 Rhagfyr 2022**.



Os ydy eich cais ar gyfer hyd at £10 mil, rhowch **6 wythnos** ar ôl y dyddiad cau i ddechrau eich prosiect.



Dyma'r amser rydyn ni ei angen i fynd drwy'r holl geisiadau ac ateb pawb.



Os ydy eich cais ar gyfer **dros** £10 mil, rhowch **8 wythnos** ar ôl y dyddiad cau i ddechrau eich prosiect.




Dydyn ni ddim yn gallu cyllido prosiectau sydd wedi dechrau yn barod.




Os ydych chi yn llwyddiannus fe fyddwn ni yn eich cefnogi ar bob cam. Fe fyddwn ni yn rhoi adborth i chi ac yn dweud wrthych chi am ddewisiadau cyllido ar gyfer y dyfodol.



Os nad ydych chi yn llwyddiannus, fe fyddwn ni yn dweud pam. A beth sydd yn gallu cael ei wneud nesaf.

# Help gyda'ch cais




Fe ddylai eich prosiect eich helpu chi i gyflawni eich nod.



Os ydych chi neisiau help gyda'ch cais neu os dydych chi ddim yn siŵr, rydych chi'n gallu cysylltu gyda ni.

**Fe fydd ein swyddogion yn:**




- Siarad gyda chi am eich syniadau. Ac yn eich helpu chi i gynllunio sut orau i ateb eich anghenion creadigol.



- Eich helpu chi i benderfynu faint o airian fyddwch chi ei angen ar gyfer eich prosiect.



- Rhoi cymorth ac arweiniad gyda’ch cais.



- Eich cefnogi chi i gyflwno eich cais mewn ffordd wahanol i’w ysgrifennu., Er enghraifft ar fideo.

## Beth os oes gen i gwestiwn?

**Rydych chi’n gallu cysylltu gyda ni:**

- I weld os ydy eich corff yn gallu cael yr arian yma
- I weld a fyddau eich prosiect yn ein helpu ni i gyflawni ein nodau
- am help gyda’ch cais
- am ragor o wybodaeth am ein cyllid.

**Rydych chi yn gallu cysylltu gyda ni drwy:**



**E-bost:** creativesteps@arts.wales



**Ffôn:** 03301 242733

(dewiswch dewis 1, a dewis 1 eto).




**Ffurflen ar y wefan:** arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

**Twitter:** @Arts_Wales_

Fe fyddwn ni yn dod yn ôl atoch chi mor fuan â phosibl.

# Geiriau Anodd

## Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd. Maen nhw:

- Gyda gwahanol alluoedd
- Yn credu gwahanol bethau
- Gyda gwahanol hunaniaethau rhywiol
- Yn gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw yn byw eu bywydau
- O wahanol oedran.

## Gwahaniaethu

Gwahaniaethu ydy pan rydych chi yn cael eich trin yn ddrwg neu yn annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rhywiol.

## Hiliaeth

Hiliaeth ydy triniaeth annheg neu annymunol o bobl oherwydd eu bod nhw yn perthyn i hil arbennig.

## Niwroamrywiol

Pobl niwroamrywiol ydy pobl y mae eu meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol.